



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cymorth Amlflwydd – Amaethyddiaeth 2025-2029



Rhagfyr 2024

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Cymorth Amlflwydd hwn yn ceisio rhoi sicrwydd, tryloywder ac eglurder i'r sector amaethyddol fod gan Lywodraeth Cymru gynllun neu gyfres o weithgareddau ar waith i gefnogi'r sector yn y dyfodol, dros gyfnod o 5 mlynedd. Y bwriad drwy wneud hynny yw galluogi'r sector a'i fusnesau i gynllunio ymlaen llaw mewn cylchoedd pum mlynedd.

Er mwyn bodloni gofynion adran 11(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y "Ddeddf"), rhaid i'r Cynllun Cymorth Amlflwydd hwn wneud y canlynol:

- Pennu'r cyfnod y mae'n gymwys mewn perthynas ag ef.
- Nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth yn ystod y cyfnod er mwyn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (yn unol ag adran 2).
- Disgrifio pob cynllun y bwriedir iddo fod yn weithredol, neu y disgwylir y bydd yn weithredol yn ystod y cyfnod, o dan gynllun fel y crybwyllir yn adran 8(3).
- Disgrifio unrhyw gymorth y bwriedir iddo gael ei ddarparu yn ystod y cyfnod ac eithrio o dan gynllun fel y crybwyllir yn adran 8(3).

Os bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn y cynllun yn peidio â bod yn gywir neu'n gyflawn, bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau ac yn cael ei ail-osod yn y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

At ddibenion y Cynllun Cymorth Amlflwydd hwn, mae'n cwmpasu'r cyfnod o 5 mlynedd rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2029.



Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Sefydlodd y Ddeddf Reoli Tir yn Gynaliadwy (“SLM”) fel y fframwaith ar gyfer cymorth a rheoliadau amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Sefydlwyd pedwar amcan SLM a fydd yn sail i gymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
- Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’r manteision maent yn eu darparu.
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso’r defnydd ohoni.

Mae’r Ddeddf yn rhoi’r pwerau i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth i’r sector amaethyddol, yn unol ag adran 8, a thrwy wneud hynny, rhaid i’r cymorth gyfrannu at gyflawni’r amcanion SLM.


Mae’r Cynllun Cymorth Amlflwydd yn nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth yn ystod y cyfnod er mwyn cyfrannu orau at gyflawni’r amcanion SLM, drwy ddarparu cymorth drwy gynlluniau neu fel arall.

Trosolwg o Gymorth

Y bwriad yw y bydd cymorth yn cael ei ddarparu i'r sector amaethyddol yn ystod cyfnod y cynllun hwn drwy nifer o gynlluniau ac ymyriadau. Darperir y cynlluniau a'r ymyriadau a nodir yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael, gyda'r Cynllun Cymorth Amlflwydd yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Cyhoeddodd ar 14 Mai 2024 y bydd cyfnod paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ("SFS") yn dechrau yn 2025, gyda'r cyfnod pontio i'r SFS arfaethedig yn dechrau o 2026. Bydd hyn yn golygu pontio o daliadau uniongyrchol o raglenni a phrosiectau a ariannwyd / a gefnogwyd gan yr UE yn hanesyddol, i gymorth sy'n cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf. Dros y cyfnod pontio, darperir cymorth yn unol â Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir ("REUL") (Cyfraith a Gymathwyd) a'r Ddeddf. Isod rydym wedi amlinellu'r cymorth cyffredinol a'r pwerau deddfwriaethol cysylltiedig yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Llinell Amser Cymorth



Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr

Cyhoeddwyd eisoes y bydd y Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr drwy **Gynllun y Taliad Sylfaenol** (“BPS”) yn parhau heb newid ar gyfer 2025. Mae'r BPS yn barhad o'r taliadau uniongyrchol presennol a wnaed yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013. Mae'n bwysig nodi bod y BPS wedi'i esemptio o'r ddyletswydd SLM fel yr amlinellir yn adran 3(e) o'r Ddeddf.

Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu pecyn o gymorth drwy'r **Cynlluniau Buddsoddi Gwledig** tan fis Mawrth 2025 ac fe'u nodir yn Atodiad 1. Nod yr arian hwn yw cefnogi'r economi gwledig a'n hamgylchedd naturiol gyda ffocws ar reoli tir yn gynaliadwy, cynhyrchiant ac arallgyfeirio, coetiroedd a choedwigaeth, gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio. Mae llawer o'r cynlluniau yn ategu'r SFS arfaethedig.

Mae'r cynlluniau buddsoddi gwledig yn cael eu darparu gan ddefnyddio pwerau Cyfraith yr UE a Gymathwyd / Deddf Llywodraeth Cymru. Mae pob un o'r cynlluniau wedi'u hasesu ac ystyir eu bod yn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM drwy'r camau a gymerwyd.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cyfnod Paratoi

Bydd y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cyfnod Paratoi** yn cynnwys nifer o gynlluniau a fydd yn paratoi ffermwyr a rheolwyr tir ar gyfer yr SFS. Dangosir y cyfnod hwn o gymorth a'r cynlluniau cysylltiedig yn Atodiad 1.

Tra bod yr SFS yn cael ei ddatblygu bydd y cynlluniau paratoi yn parhau i ddefnyddio pwerau Cyfraith yr UE a Gymathwyd / Deddf Llywodraeth Cymru. Bydd pob un o'r cynlluniau'n cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM drwy'r camau a gymerwyd cyn eu lansio.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

O 2026, yn amodol ar benderfyniadau terfynol ynghylch dyluniad y cynllun, bydd y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** yn cynnwys strwythur tair haen sy'n cynnwys Haenau Cyffredinol,

Opsignol a Chydweithredol, ynghyd â nifer o Reolau'r Cynllun, i gyd uwchlaw'r llinell reoleiddio sylfaenol. Y cynllun cymorth hwn fydd y cyntaf i fabwysiadu a gweithredu'r pwerau yn unol ag adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a'i rheoliadau ategol. Mae'r cynllun yn cael ei ddylunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM drwy'r camau a gymerwyd.

Bydd yr **Haen Gyffredinol** yn cynnwys cyfres o Weithredoedd Cyffredinol y mae'n rhaid i bob fferm sy'n cymryd rhan yn y cynllun gyflawni yn eu herbyn. Fodd bynnag, ni fydd rhai Gweithredoedd Cyffredinol yn berthnasol i bob fferm.

Er enghraifft, ni fydd y Weithred Gyffredinol i sefydlu Cynllun Rheoli Safle Dynodedig, yn berthnasol i ffermydd nad ydynt yn gorgyffwrdd â Safleoedd Dynodedig, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (“SoDdGA”). Diben yr SFS yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy sy'n ystyried ac yn cefnogi camau gweithredu sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr argyfyngau natur a hinsawdd datganedig yng Nghymru.

Bydd busnes fferm yn derbyn Taliad Sylfaenol Cyffredinol am fodloni holl ofynion Haen Gyffredinol y Cynllun.

Gall ffermwyr sydd am fynd ymhellach na'r Haen Gyffredinol ddewis ymgymryd â gweithredoedd pellach yn yr **Haenau Opsignol a Chydweithredol** ar gyfer cyllid ychwanegol. Bydd Gweithredoedd Opsignol a Chydweithredol ychwanegol yr SFS yn cael eu cyflwyno drwy gydol Cyfnod Pontio'r SFS.

Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch dyluniad y cynllun tan 2025. Bydd hyn yn dilyn cyfnod parhaus o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy Ford Gron Weinidogol yr SFS. Bydd y Cynllun Cymorth Amlfwydd hwn yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r penderfyniadau hynny.

Cymorth Amaethyddol Arall

Darperir cymorth i'r diwydiant drwy Gymorth Amaethyddol Arall yn ogystal â'r prif becynnau cymorth a amlinellir uchod.

Atodiad 1

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o gynlluniau / cymorth presennol sydd eisoes ar waith, yn ogystal â chynlluniau / cymorth y rhagwelir y byddant yn dechrau yn ystod cyfnod y Cynllun Cymorth Amlflwydd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau yn ôl yr angen i sicrhau bod y cynllun yn parhau'n gyfredol.

Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
<ul style="list-style-type: none">Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)Taliad wedi'i AilddosbarthuFfermwyr Ifanc	<p>Mae disgrifiad o Gynllun y Taliad Sylfaenol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Llywodraeth Cymru yn y ddolen a ganlyn:</p> <p>https://www.llyw.cymru/ffurflen-cais-sengl-2024-llyfryn-rheolau</p> <p>Cynllun domestig yn seiliedig ar Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE – Taliadau Uniongyrchol.</p> <p>Taliad blynyddol i ffermwyr yng Nghymru gydag o leiaf bum hectar o dir cymwys.</p>	<p>Cyfraith yr UE a Gymathwyd [Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013]</p>	<p>Yn parhau i fod ar gael yn 2025.</p>





Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
Y Cynllun Troi'n Organig	<p>Gan fod y cynlluniau hyn wedi bod ar waith ers 2022, mae manylion canllawiau'r cynllun ar gael yn y ddolen a ganlyn:</p> <p>https://www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig</p>	<p>Cyfraith yr UE a Gymathwyd a Deddf Llywodraeth Cymru</p>	<p>Tan ddiwedd mis Mawrth 2025.</p>
Cymorth Organig*			
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd*			
Grantiau Bach – Amgylchedd*			
Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd*			
Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig*			
Y Rhaglen Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol			
Y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau*			
Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau*			
Grantiau Bach – Arallgyfeirio Amaethyddol*			
Grantiau Bach – Effeithlonrwydd*			
Datblygu Garddwriaeth*			
Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth*			
Creu Coetir*			
Adfer Coetir*			
Cyswllt Ffermio*			
Ffermydd Colegau Technoleg Amaeth			
Cynllun Cynefin Cymru*			
Cynlluniau rheoli SoDdGA*			
Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid*			

Disgwylir i gynlluniau sydd wedi'u marcio â seren () yng Nghyfnod y Cynllun Buddsoddi Gwledig barhau i Gyfnod Paratoi'r SFS.

Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
Cronfa Her Technoleg Bwyd-Amaeth*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://sdi.click/sbriagrifood	Cyfraith yr UE a Gymathwyd a Deddf Llywodraeth Cymru	Tan ddiwedd mis Mawrth 2025.
Dileu'r Clafr*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://ahww.cymru/cy/home/		
Dileu BVD*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://www.llyw.cymru/dolur-rhydd-feirysol-buchol		
Ymwrthedd Gwrthficrobaid*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://rhaglenni.mentera.cymru/arwaindgc/		
Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/the-national-peatland-action-programme/?lang=cy		
TB Gwartheg*	Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://www.llyw.cymru/tb-gwartheg		
Y Cynllun Arloesi Strategol*	Bydd y cynllun yn cefnogi pum rhaglen gweithgarwch allweddol: <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwybodaeth, Arloesi a Thechnoleg ar gyfer Llwyddiant 2. Menter ar gyfer Llwyddiant 3. Sgiliau ar gyfer Llwyddiant 4. Ehangu ar gyfer Llwyddiant 5. Clystyrau ar gyfer Llwyddiant. 		

Disgwylir i gynlluniau sydd wedi'u marcio â seren () yng Nghyfnod y Cynllun Buddsoddi Gwledig barhau i Gyfnod Paratoi'r SFS.



Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cyfnod Paratoi

Pan fo cynlluniau'n gyfredol, gellir dod o hyd i fanylion y cynllun yn y ddolen a ganlyn <https://www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig>.

Mae'r cynlluniau newydd canlynol yn cael eu datblygu a rhoddir disgrifiad byr isod, cyn i gynlluniau ddod ar gael:

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig	Bydd y cynllun Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig yn integreiddio cymhellion ar gyfer arferion ffermio cadarnhaol gyda dibenion Tirweddau Dynodedig (h.y. Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol). Bydd yn cynnwys prosiectau cydweithredol amgylcheddol, adfer natur a lliniaru newid hinsawdd ar nifer o ffermydd mewn Tirweddau Dynodedig, gyda'r prosiectau hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl ddarganfod, mwynhau a deall y tirweddau, gan gynnwys eu treftadaeth ddiwylliannol.	Cyfraith yr UE a Gymathwyd a Deddf Llywodraeth Cymru	I ddechrau yn 2025. Cyfnod Paratoi i arwain at yr SFS.
Cronfa Arloesi ar gyfer Rheoli Plaladdwyr yn Integredig	Bydd y Cynllun Arloesi ar gyfer Rheoli Plaladdwyr yn Integredig yn comisiynu gwaith i ddarparu cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gostio'n llawn, gyda'r risgiau wedi'u llawn asesu, a allai gael ei gyflwyno fel yr haen Rheoli Plaladdwyr yn Integredig opsiynol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gefnogi camau i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio dulliau Rheolaeth Integredig ar Blâu gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o blaladdwyr cemegol, cynnydd mewn bioamrywiaeth, ac yn gwella ansawdd dŵr, iechyd pridd, gwytnwch, a chynhyrchiant ar ffermydd.		
Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar Raddfa Tirwedd	Bydd y prosiect Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar Raddfa Tirwedd yn cefnogi ac yn ariannu partneriaethau i sicrhau rheolaeth ar rywogaethau estron goresgynnol ar raddfa tirwedd.		
Coetiroedd a choed fferm - cymorth i gynhyrchu incwm	Bydd y cynllun hwn yn helpu busnesau ffermio i greu incwm i wella eu cydnerthedd, drwy ddeall cynhyrchion pren a chynhyrchion eraill sy'n gallu cael eu cynhyrchu o goetir ar ffermydd ac o goed sy'n cael eu defnyddio fel rhan o system amaeth-goedwigaeth, a manteisio i'r eithaf ar botensial y cynhyrchion hyn.		
Y Cynllun Rheoli Coetiroedd	Bydd y Cynllun Rheoli Coetiroedd yn rhoi cymorth i ddatblygu cynlluniau i gyflawni ymrwymiad Gweinidog Cymru i ddod â choedwigoedd heb eu rheoli i gyflwr economaidd ac amgylcheddol da.		



Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
Gweithredoedd Cyffredinol	<p>Mae manylion yr amlinelliad wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a gafodd ei gyhoeddi ar 25 Tachwedd 2024, i'w gweld yn y ddolen a ganlyn</p> <p>https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-amlinelliad-or-cynllun-gynigir-2024</p>	<p>Deddf Amaethyddiaeth Cymru 2023 Adran 8 Pwerau Cymorth</p>	<p>Rhagwelir y bydd yn dechrau yn 2026.</p>
Gweithredoedd Opsignol			
Gweithredoedd Cydweithredol			

Cymorth Amaethyddol Arall

Cynllun / Ymyrraeth	Disgrifiad o'r Cynllun	Pwerau	Yr Amserlen
Iawndal TB gwartheg	<p>Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://www.llyw.cymru/tb-gwartheg-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr-ynghylch-iawndal</p> <p>Mae'r trefniadau talu iawndal ar gyfer gwartheg sy'n cael eu difa oherwydd TB wedi'u hamlinellu yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu trefniadau ar gyfer iawndal ar gyfer anifeiliaid heblaw gwartheg.</p> <p>Yn y rhan fwyaf o achosion, telir iawndal llawn, ond gellir lleihau faint o iawndal a gewch os na ddilynwyd y rheolau a nodir yn y Gorchymyn TB.</p>	Deddf Llywodraeth Cymru	Yn parhau.
Rhaglen Rhwydweithiau Natur	<p>Mae'r manylion i'w gweld yn y ddolen a ganlyn: https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/144576</p> <p>Nod y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yw gwella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir, dŵr croyw a morol gwarchoddedig. Bydd gwella cyflwr y safleoedd gwarchoddedig a chysylltiedig hyn yn eu galluogi i weithredu'n well fel rhwydweithiau natur. Mae rhwydweithiau natur yn ardaloedd hanfodol a chydnerth lle gall cynefinoedd a rhywogaethau ffynnu ac ehangu. Bydd adfer cysylltedd yn y rhwydweithiau hyn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • atal dirywiad pellach mewn rhywogaethau a chyflwr cynefinoedd • cefnogi adferiad natur • gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd <p>Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn dwy ffordd allweddol – cyllid i CNC i gyflawni prosiectau'n uniongyrchol, gan gynnwys cytundebau rheoli tir, a thrwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur. Mae'r gronfa yn gynllun grant cystadleuol sy'n cael ei redeg gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n agored i bob tîrffeddiannwr preifat a sefydliad yng Nghymru. Rhaid i chi ddangos bod gennyh chi, neu eich bod yn gweithio tuag at gael, y caniatadau, y trwyddedau a'r cydsyniadau cywir i ymgymryd â gweithgaredd ar y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig neu'r ardaloedd cyfagos.</p>	Deddf Llywodraeth Cymru	Disgwylir cyfnodau ymgeisio pellach ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn ystod haf 2025 a 2026. Yr union amseriad i'w gadarnhau.